## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4060 (CYLCHFAN LEO I GYLCHFAN MOUNTAIN HARE, MERTHYR TUDFUL) (GWAHARDD CERBYDAU A CHYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn hwn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4060, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Leo a Chylchfan Mountain Hare, Merthyr Tudful.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A4060 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd;

ii. gosod terfyn cyflymder o naill ai 50 mya neu 40 mya (ac eithrio unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys) ar y darnau o'r A4060 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn, ar bob adeg pan nad yw'r gwaharddiad a ddisgrifir yn i. uchod yn weithredol. Gall hyd a lled cyfyngiadau'r terfyn cyflymder amrywio o fewn terfynau y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Disgwylir y bydd cau'r ffordd, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (rhwng 20:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch) o 30 Ionawr 2022 hyd 31 Mai 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar htpps://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A4060 TRUNK ROAD (LEO'S ROUNDABOUT TO MOUNTAIN HARE ROUNDABOUT, MERTHYR TYDFIL) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES AND SPEED LIMITS) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4060 trunk road between Leo's Roundabout and Mountain Hare Roundabout, Merthyr Tydfil.

The effect of the Order will be to temporarily:

i. prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) from proceeding on the lengths of the A4060 trunk road described in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are also described in that Schedule.

ii. impose either a 50 mph or 40 mph speed limit (other than any vehicle being used by the emergency services) on the lengths of the A4060 described in Schedule 2 to this Notice at all times when the prohibition described at i. above is not in operation. The extent of the speed limit restrictions may vary within limits as indicated by traffic signs.

The Road closures, which will be signed accordingly, are expected to operate on an intermittent basis, overnight (20:00 hours - 06:00 hours) from 30 January 2022 until 31 May 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de cefnffordd yr A4060 sy'n ymestyn o ganolbwynt y gyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Mountain Hare hyd at y gyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Leo.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n dymuno mynd tua'r gogledd ar yr A4060 o Gylchfan Leo fydd mynd ar yr A4060 tua'r de i Gylchfan Abercannaid, yr A470 tua'r gogledd trwy Gylchfan Rhyd-y-car a Chylchfan Swansea Road i Gylchfan Cefn Coed, yr A465 tua'r dwyrain i Gylchfan Dowlais ac yna'r A4060 tua'r de tuag at Gylchfan Mountain Hare. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n mynd tua'r de o Gylchfan Mountain Hare.

## ATODLEN 2
## Terfyn cyflymder 50 mya a 40 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de cefnffordd yr A4060 rhwng Cylchfan Mountain Hare a Chylchfan Leo, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol y ddwy gylchfan.

## SCHEDULE 1
## Temporary Prohibition of Vehicles and Alternative Routes

The length of the northbound and southbound carriageways of the A4060 trunk road that extends from the centre-point of the junction with the main circulatory carriageway of Mountain Hare Roundabout to the junction with the main circulatory carriageway of Leo's Roundabout.

The alternative route for vehicles wishing to proceed north on the A4060 from Leo's Roundabout will be via the southbound A4060 to Abercanaid Roundabout, the northbound A470 through Rhydycar Roundabout and Swansea Road Roundabout to Cefn Coed Roundabout, the eastbound A465 to Dowlais Roundabout and then southbound on the A4060 towards Mountain Hare Roundabout. Vice versa for southbound vehicles from Mountain Hare Roundabout.

## SCHEDULE 2
## Temporary 50mph and 40 mph speed limit

The length of the northbound and southbound carriageways of the A4060 trunk road between Mountain Hare Roundabout and Leo's Roundabout including the circulatory carriageways of both roundabouts.